Yr Adran Addysg a Phlant

Llawlyfr Derbyniadau Ysgolion

Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol Rheoledig yn Sir Gaerfyrddin

(Tachwedd 2011)

ADRAN 1 - FFEITHIAU ALLWEDDOL

1) Nid yw cael lle mewn ysgol yn broses awtomatig. **Nid oes unrhyw warant o le mewn ysgol.**

2) Mae **cyfyngiadau ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i ysgol** mewn unrhyw un flwyddyn. Unwaith y cyrhaeddir y terfyn hwnnw ni dderbynnir unrhyw ddisgyblion eraill.

3) **Mae'n rhaid ichi wneud cais i awdurdod derbyn** er mwyn i'ch plentyn gael ei dderbyn mewn ysgol. Ni all ysgol gymunedol neu wirfoddol reoledig dderbyn disgyblion.

4) Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yr awdurdod derbyn yw'r **cyngor sir**.

5) Ar gyfer **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir** yr awdurdod derbyn yw corff llywodraethol yr ysgol honno ac nid yw cynnwys y llyfryn hwn yn berthnasol iddynt. Gellir cael cyngor am y broses dderbyn oddi wrth gorff llywodraethol yr ysgol.

6) Os oes gennych blentyn, gan gynnwys rhai dan 4 oed fydd yn **dechrau ysgol feithrin neu gynradd rhwng Medi 2012 ac Ebrill 2013** mae'n rhaid ichi gyflwyno cais iddynt gael eu derbyn mewn ysgol i'r awdurdod derbyn erbyn yr **31ain Ionawr, 2012.**

7) Os oes gennych blentyn yn trosglwyddo i **ysgol uwchradd** ym **mis Medi 2012** mae'n rhaid ichi ddanfon y ffurflen drosglwyddo yn ôl erbyn y **3ydd Chwefror 2012.**

8) Os gwnewch gais ar ôl y dyddiadau hyn caiff eich cais ei drin yn gais hwyr a chaiff sylw ar ôl y rhai a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau. Bydd hyn yn **lleihau eich gobaith o gael lle i'ch plentyn mewn ysgol o'ch dewis.**

9) Os cewch gynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol mae'n rhaid ichi **lofnodi a danfon yn ôl y ffurflen** yn derbyn y cynnig o le i'r **awdurdod derbyn** erbyn y dyddiad a nodir **neu fe dynnir yn ôl y cynnig o le** a chynigir y lle i ddisgybl arall.

10) Os oes gennych blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol fe'ch cynghorir i gysylltu â phennaeth yr ysgol neu â swyddogion cynnydd disgyblion yr adran.

ADRAN 2 - SUT I WNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL

- Ar gyfer ysgolion cymunedol a gwirfoddol rheoledig:-

    - Ar lein yn www.sirgar.gov.uk
    - Gyda chymorth yr ysgol
    - Trwy gysylltu â'r adran llywodraethiant ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Prif Adeilad, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Jôb, Caerfyrddin SA31 3HB.

- Ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir trwy gysylltu â chorff llywodraethol yr ysgol

- Ar gyfer ysgolion nad ydynt yn sir gaerfyrdddin trwy gysylltu â'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ardal honno.

ADRAN 3 - PRYD I WNEUD CAIS

- Cynradd/meithrin – ar gyfer pob disgybl erbyn yr **31ain Ionawr** yn y flwyddyn ysgol cyn mae disgwyl i'r plentyn ddechrau'r ysgol.

- Uwchradd – erbyn y **3ydd Chwefror** ar gyfer trosglwyddo i ysgol uwchradd yn y mis medi canlynol.

ADRAN 4 - RHOI LLEOEDD

- Bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried y ceisiadau a dderbyniodd erbyn y dyddiad cau, sef yr 31ain Ionawr 2012 ar gyfer ysgolion cynradd a'r 3ydd Chwefror ar gyfer trosglwyddiadau o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

- Caiff y ceisiadau a dderbyniwyd eu hystyried yn ôl y nifer derbyn, sy'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i ysgol mewn unrhyw un grŵp blwyddyn.

- Bydd yr awdurdod yn derbyn cais os yw nifer y ceisiadau yn llai na therfyn y nifer derbyn.

- Os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael bydd yr awdurdod derbyn yn blaenoriaethu ceisiadau ac yn cynnig lleoedd fel a ganlyn:-

    a) Plant mewn gofal
    b) Plant a chanddynt ddatganiad o anghenion addysgol sy'n enwi'r ysgol fel y darparydd penodol ac agosaf
    c) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano
    d) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano
    e) Plant sy'n byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano
    f) Plant sy'n byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd yn yr ysgol adeg y lle y gofynnir amdano.

    Pellter – defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol i bennu trefn blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol cyn y sawl sy'n byw bellaf i ffwrdd o'r ysgol

Brodyr a chwiorydd- hanner brawd/chwaer neu frawd/chwaer lawn neu frawd neu chwaer a fabwysiadwyd

Genedigaeth luosog – pan mae un lle ar gael a phan mae'r plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr all yn derbyn y ddau/yr holl blant

Plant aelodau lluoedd arfog y dg – byddant yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y weinyddiaeth amddiffyn (mod) yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad.

ADRAN 5 - LLENWI'R FFURFLEN GAIS

- Bernir mai cyfeiriad cartref plentyn yw eiddo preswyl sydd yn unig neu'n brif breswlyfa'r plentyn, ac sydd naill ai'n:-

  (i) eiddo i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn;

  neu'n

  (ii) cael ei lesio neu ei rentu i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta o dan gytundeb rhentu ysgrifenedig, a lofnodwyd gan y landlord a'r tenant, sy'n parhau am o leiaf chwe mis.

- Wrth wneud cais am le bydd rhaid ichi ddarparu prawf cyfeiriad a gofynnir ichi am hyn adeg gwneud y cynnig o le.

- Symud preswylfa/newid cyfeiriad. Os ydych yn bwriadu newid preswylfa ac yn gwneud cais am le i ysgol yn seiliedig ar y cyfeiriad newydd bydd y cyngor yn derbyn naill ai lythyr cyfreithiwr yn datgan y cyfnewidiwyd contractau ac yn nodi'r dyddiad cwblhau neu gytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio. Os na allwch ddarparu prawf cyfeiriad erbyn y dyddiad a roddwyd ar gyfer derbyn ceisiadau bydd eich cais yn seiliedig ar eich cyfeiriad presennol.

- Rhannu cyfrifoldeb – pan fod y cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei rannu, a phan mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol am y plentyn, am ran o'r wythnos, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol.

- Os cynigir lle ysgol ar sail cyfeiriad y darganfyddir yn ddiweddarach ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, tynnir y lle yn ôl ac efallai y cynigir y lle i blentyn arall.

ADRAN 6 - APELIADAU

- Os yw eich cais am le i'ch plentyn mewn ysgol gymunedol neu wirfoddol reoledig ac os nad yw'n llwyddiannus, ar yr amod fod y disgybl o fewn ystod oed swyddogol yr ysgol, mae gennych hawl i ofyn i banel apeliadau annibynnol ar dderbyniadau ysgolion adolygu'r mater. Gall y panel wrthdroi'r penderfyniad i beidio derbyn disgybl.

- Mae'n bwysig nodi er hynny nad oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio derbyn disgyblion blynyddoedd cynnar sydd o dan oed derbyn yr ysgol

ADRAN 7 - DEWIS YSGOL

- **Mae gan bob ysgol ddalgylch penodedig** y mae'n ei wasanaethu

- Os yw'r **disgybl yn byw yn nalgylch penodedig** ysgol **byddwch mewn gwell sefyllfa** i gael eich cais am le yn yr ysgol honno wedi'i dderbyn. **Er hynny, nid oes unrhyw warant o le**.

- Ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf oed a phellter, bydd gan ddisgyblion **sy'n byw yn nalgylch** ysgol **well cyfle o fod yn gymwys i gael cludiant am ddim** i'r ysgol ac yn ôl.

- Gall rhieni **ddatgan blaenoriaeth ar gyfer ysgol, nad yr ysgol ddalgylch benodedig mohoni**. **Ar yr amod nad eir heibio'r terfyn ar nifer y disgyblion** y gellir eu derbyn i'r ysgol a bod y trefniadau cywir yn cael eu dilyn **bydd y cais am le yn cael ei ganiatáu.**

- Pan mae **rhiant yn dewis ysgol nad yr ysgol agosaf na dalgylch mohoni**, bydd y rhiant yn gyfrifol am **gludo'r** plentyn i'r ysgol ac yn ôl.

- Pan mae **disgybl yn trosglwyddo** i'r **ysgol uwchradd** bydd ystyried a yw'r disgybl yn gymwys i gael **lle** yn yr ysgol honno ac i gael **cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol** yn seiliedig ar y **cyfeiriad cartref** ac **nid** ar ba **ysgol gynradd y bu ynddi**.

ADRAN 8 - AR BA OED ALL DISGYBLION DDECHRAU'R YSGOL

1. Plant blynyddoedd cynnar – plant 3 oed.

Derbynnir disgyblion **yn rhan-amser** yn y **tymor yn dilyn eu trydydd penblwydd** lle y gwneir darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ysgol feithrin, meithrinfa neu ddosbarth blynyddoedd cynnar mewn ysgol gymunedol neu wirfoddol reoledig.

Dylid cyflwyno **ceisiadau** am le i'r **awdurdod derbyn** erbyn yr **31ain Ionawr** yn y flwyddyn cyn i'r disgybl ddechrau ysgol**.**

2. Plant dosbarth derbyn - plant 4 & 5 oed

Lle nad oes darpariaeth blynyddoedd cynnar, mae disgyblion yn cael eu derbyn yn llawn amser ar yr amseroedd canlynol:-

- Medi os yw eu 4ydd penblwydd rhwng y 1af medi a'r 31ain Rhagfyr
- Ionawr os yw eu 4ydd penblwydd rhwng y 1af ionawr a'r 31ain Mawrth
- Ebrill os yw eu 4ydd penblwydd rhwng y 1af ebrill a'r 31ain Awst

Yn ôl y gyfraith rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn cael addysg lawn amser ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

- Tymor yr hydref ar gyfer plant sy'n 5 oed rhwng y 1af Ebrill a'r 31ain Awst
- Tymor y gwanwyn ar gyfer plant sy'n 5 oed rhwng y 1af Medi a'r 31ain Rhagfyr
- Tymor yr haf ar gyfer plant sy'n 5 oed rhwng y 1af Ionawr a'r 31ain Mawrth

ADRAN 9 - CLUDIANT YSGOL

1. Cymhwyster – bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gymwys i gael cymorth gyda chludiant i'r ysgol ac yn ôl os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf canlynol:-

- Maent yn byw yn sir gaerfyrddin
- Maent wedi cyrraedd yr oed ysgol gorfodol
- Maent yn byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol o'r ysgol agosaf neu'r ysgol dalgylch leol

ADRAN 10 - GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch ar y broses dderbyn mae honno ar gael o'r:-

- Llyfryn gwybodaeth i rieni sydd ar gael arlein yn

  http://www.carmarthenshire.gov.uk/cymraeg/addysg/ysgolion/Pages/Home.aspx

- Mae copi o'r llyfryn gwybodaeth i rieni ar gael yn eich llyfrgell leol.
- Gallwch weld copi yn eich ysgol leol
- Gallwch gael copi oddi wrth yr uned llywodraethiant ysgolion.